| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Archwilio** |
| **DYDDIAD** | **17 Tachwedd, 2011** |
| **TEITL** | **Ymateb yr Adran Rheoleiddio i Adroddiadau Archwilio Mewnol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Ystyried Ymateb yr Adran Rheoleiddio i Argymhellion Adroddiadau Archwiliad Mewnol** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **GWEITHREDIAD** | **Gofynnir i'r Pwyllgor Dderbyn yr Adroddiadau Cynnydd ar Ymateb yr Adran Rheoleiddio i Argymhellion yr Archwiliadau Mewnol a Chynnig Sylwadau ar eu Cynnwys.** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiadau archwiliad mewnol yn ymwneud a;

- Cysoni Incwm Parcio A Dirwyon
- Cytundeb Maes Parcio Canolfan Menai Bangor
- Uned Cludiant Integredig

mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cais i swyddogion o'r Adran Rheoleiddio fynychu'r cyfarfod er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â chynnydd a wnaed i ymateb i argymhellion yr adroddiadau ynghyd ac unrhyw faterion eraill sydd yn codi o'r adroddiadau archwiliad.

1.2 Mae crynhoad o ymateb yr Adran i argymhellion yr archwiliadau mewnol wedi ei gynnwys yn atodiadau 1 i 3.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad ar gynnydd ar ymateb yr Adran Rheoleiddio i argymhellion yr archwiliadau mewnol a chynnig sylwadau ar eu cynnwys.